**Safonau Rheoleiddio Cymoedd i'r Arfordir - Cynllun Gwella**

Tai Cymoedd i'r Arfordir, Rhif Cofrestru 30205R
Swyddfa Gofrestredig – Parc Busnes Tremaen, Heol Tremaen, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TZ

## Cipolwg ar Ein Hunanarfarniad

| SRh1 | SRh2 | SRh3 | SRh4 | SRh5 | SRh6 | SRh7 | SRh8 | SRh9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| a | a | a | a | a | a | a | a | a |
| b | b | b | b | | b | b | b | |
| c | c | c | c | | | c | c | |
| d | | d | d | | | d | | |
| e | | | | | | e | | |
| f | | | | | | | | |
| g | | | | | | | | |

| Cyf. | Safon Rheoleiddio | | |
|---|---|---|---|
| **SRh1** | **Mae gan y sefydliad arweinyddiaeth strategol effeithiol a threfniadau llywodraethu sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a'i amcanion** | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Meddu ar gynllun busnes sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i werthoedd ac yn sefydlu sut fydd y sefydliad yn cyflawni ei brif ddiben fel landlord cymdeithasol | Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu'n flynyddol i adolygu ac adfywio'r amcanion blynyddol, fel sy'n ofynnol, i sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â'r cynllun corfforaethol a'i fod yn addas at y diben yng ngoleuni unrhyw heriau sy'n newydd neu'n ymgodi yn yr amgylchedd gweithredu. | Prif Swyddog Gweithredol | Bwrdd mis Chwe 2023 |
| b) Yn cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol | 3 blynedd ers yr ymgymeriad gwirfoddol, ac yn unol â 5.8.2 Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu newydd yn ymgymryd ag adolygiad llywodraethu, a bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar y pethau pwysig sydd ynghlwm wrth llywodraethiant da a bydd yn cynnwys adolygiad o'r dogfennau llywodraethu. Bydd y canlyniad yn cael ei adrodd i'r Bwrdd yng ngwanwyn 2023. | Cyfarwyddwr Llywodraethu, Strategaeth a Pherfformiad | Bwrdd Gwanwyn 2023 |
| c) Pennu a chyflawni ymrwymiadau mesuradwy, seiliedig ar dystiolaeth ar draws holl feysydd y busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (yn cynnwys gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throseddau casineb), gan adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'r busnes yn gweithio ynddyn nhw a chyda nhw | 1. Gan gydnabod ein cyfrifoldebau mewn perthynas â gwella ein safonau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, canolbwynt diwrnod datblygu diwethaf y Bwrdd oedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cafodd Aelodau'r Bwrdd brynhawn o hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gyda Tai Pawb yn hwyluso, a chawsant eu cyflwyno i'n Map Trywydd pedair blynedd ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, er mwyn iddynt allu ei ystyried a'i gymeradwyo. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl, Diwylliant a Datblygu Sefydliadol | Medi 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2. Mae gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i gynnull er mwyn helpu i ysgogi unrhyw welliannau angenrheidiol yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.<br><br>3. Mae ymarfer casglu data ar waith er mwyn pennu proffil ein cwsmeriaid o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. | Y Gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant<br><br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Blwyddyn 1 y cynllun gweithredu Mawrth 2023<br><br>Ebrill 2023 |
| d) Meddu ar Fwrdd amrywiol, yn adlewyrchu'r cymunedau mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i fod yn effeithiol. | Fel y nodwyd ym mhwynt 3 uchod, bydd yr ymarfer casglu data yn ein helpu ni i gael dealltwriaeth well o broffil cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y bobl a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Bydd hynny'n ein helpu ni i asesu pa mor dda mae ein Bwrdd yn adlewyrchu hyn ac yn sail i unrhyw gynllun recriwtio i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a adnabuwyd, fel sy'n ofynnol. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu | Mis Medi 2023 |
| e) Gwneud penderfyniadau rhesymegol ar sail gwybodaeth glir ac o ansawdd da, yn cynnwys asesu risgiau, a phan fo'n briodol, asesu barn tenantiaid. | Mae Cymoedd i'r Arfordir, trwy gyfrwng ei dîm Arwain, ei Bwyllgor Archwilio a Risgiau a'i Fwrdd, yn cynnal adolygiad 'gwraidd a bôn' o'i risgiau strategol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol ar ei newydd wedd a Phroffil Risg y Sector.<br><br>Yn ystod Chwefror a Mehefin 2022, cynhaliwyd sesiynau gweithdy, gyda Barcud Shared Services yn hwyluso.<br><br>Mae amserlen flynyddol y Bwrdd wedi'i diwygio er mwyn sicrhau y bydd y Bwrdd yn cael sawl cyfle drwy'r flwyddyn i ystyried a llunio'r amryfal fewnbynnau ac allbynnau fel rhan o'r | Y Tîm Arwain / Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau / Y Bwrdd<br><br>Y Tîm Arwain | Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau Hydref 2022<br><br>Diwedd Mawrth 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | broses gynllunio flynyddol. Daeth y cyfle cyntaf ar ffurf Diwrnod Strategaeth y Bwrdd a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023, lle daeth aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ynghyd i ystyried effaith yr heriau sy'n deillio o'r amgylchedd gweithredu allanol ac asesu'r effaith ar waith cynllunio'r dyfodol er mwyn cynorthwyo i lunio model cadarn fel rhan o'r gwaith blynyddol o bennu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, bydd Diwrnod Datblygu'r Bwrdd, a gaiff ei hwyluso'n allanol, yn canolbwyntio ar gyllid; y bwriad yw cynnal y diwrnod hwn ar 27 Mawrth. Bydd ail Ddiwrnod Strategaeth y Bwrdd yn cael ei gynnal ar 19 Mehefin. Bydd y diwrnod hwn yn canolbwyntio ar gynllunio, gan alluogi aelodau'r Bwrdd i ragweld pethau'n gynnar a thrwy hynny roi cyfle iddynt ystyried a llywio ein paramedrau cynllunio.<br><br>Wrth symud ymlaen, bydd adroddiad y Trysorlys a gyflwynir i'r Bwrdd fel rhan o'r Adroddiad Perfformiad Integredig bob chwarter yn cysylltu â'r cynllun 30 mlynedd, gan gynnig esboniad mwy cynhwysfawr yn ogystal â graffiau/siartiau.<br><br>Hefyd, byddwn yn llunio arweiniad ar gynnwys mewnbynnau ac allbynnau'r cynllun 30 mlynedd a fydd yn cynnwys dyfyniadau mwy cynhwysfawr i arddangos priodoleddau senarios. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| f) Yn galluogi ac yn cefnogi tenantiaid i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau strategol | Byddwn yn parhau i weithio i ddatblygu ein perthynas gyda'n tenantiaid-randdeiliaid i'w galluogi nhw i gael mwy o gyfraniad at ddylanwadu ar faterion ar lefelau strategol. Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu, Strategaeth a Pherfformio yn gweithio gyda'r Tîm Ymgysylltu Cymunedol i archwilio cyfleoedd a datblygu cynllun yn unol â hynny.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad cwsmeriaid yn ymwneud â'n gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw. | Cyfarwyddwr Llywodraethu, Strategaeth a Pherfformiad | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| g) Yn cydymffurfio'r holl ddeddfwriaethau, gofynion rheoleiddio a chanllawiau statudol perthnasol, ac yn cyfathrebu'n brydlon gyda'r rheoleiddiwr, gan gynnwys ar faterion sylweddol sy'n ymwneud ag anghydffurfiaeth wirioneddol neu bosibl | Gan ystyried arwyddocâd effaith Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), mae rhaglen wedi'i haddasu i sicrhau bod unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gweithredu. Mae hyn yn cael ei arwain gan ein Cyfarwyddwr Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid gyda chymorth ein harbenigwr cyfreithiol mewnol. Mae'r Rhaglen yn cael ei monitro drwy ein tîm Arwain a'n Pwyllgor Archwilio a Risg.<br>Mae'r hyfforddiant wedi'i gyflwyno i Reolwyr ar draws y sefydliad i'w helpu nhw i ddeall y gofynion newydd a'r newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
| **SRh2** | **Trefniadau rheoli risg a sicrwydd cadarn ar waith** | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Yn meddu ar fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolyddion mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i adnabod a rheoli'n llwyddiannus risgiau cyfredol a | Ymgymryd ag adolygiad cyflawn o'n risgiau strategol a'n cofrestr risgiau. | Cyfarwyddwr Llywodraethu, Strategaeth a Pherfformiad | Pwyllgor Archwilio a Risg mis Hydref 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| newydd sy'n bygwth darpariaeth ei strategaeth neu ei gydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddio | Cryfhau ein proses rheoli risg i gynnwys caffael a gweithredu modiwl Risg Decision Time.<br><br>Datblygu Cofrestr Risgiau sy'n Ymgodi. | | |
| b) Nid yw'n rhoi asedau neu denantiaid tai cymdeithasol mewn risg ddiangen | Cwblhau Arfarniad o Berfformiad Asedau o'n hasedau domestig yn seiliedig ar y model SHAPE.<br><br>Parhau i weithredu gwelliannau sydd wedi'u nodi yn ein Rhaglen Gwella Iechyd a Diogelwch 2 flynedd | Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf | Diwedd mis Rhagfyr 2024<br><br>Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| c) Yn cynnal cynlluniau hygyrch a chyfredol ar gyfer parhad busnes, cynlluniau wrth gefn a chynlluniau adfer wedi trychineb | Mae ein cynllun archwiliad mewnol eleni wedi canolbwyntio ar barhad busnes ac adfer wedi trychineb, ac mae archwiliad dilynol mewn perthynas â'n cynllun parhad busnes wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Medi 2022. Bydd gwaith i symleiddio ein Cynllun Parhad Busnes yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf. | Cyfarwyddwr Llywodraethu, Strategaeth a Pherfformiad | Diwedd mis Rhagfyr 2022 |

| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** |
|---|---|
| **SRh3** | **Cynnig gwasanaethau o ansawdd i denantiaid** |

| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
|---|---|---|---|
| a) Yn cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn adnabod a datrys yn brydlon unrhyw achos o danberfformio | Byddwn yn parhau i weithredu gwelliannau a monitro'r meysydd gwelliannau â blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Gwella Iechyd a Diogelwch. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| neu anghydffurfiaeth ar faterion iechyd a diogelwch y landlord | | | |
| b) Darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol y tenantiaid | Mae Cymoedd i'r Arfordir yn deall pa mor bwysig yw amrywiaeth a'r modd y caiff effaith gadarnhaol ar ei ddiwylliant a'i benderfyniadau ac ar ymdeimlad o berthyn ymhlith cydweithwyr a chwsmeriaid. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i'r addewid 'Gwneud nid Dweud' ac mae gennym gynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant pedair blynedd ar waith er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni ein nod, sef bod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol erbyn 2026.<br><br>Mae'r map trywydd hwn yn canolbwyntio ar ein cwsmeriaid, a hefyd mae'n canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn diwallu anghenion presennol y bobl sy'n byw yn ein cartrefi a bod modd inni fwrw ymlaen â'u hanghenion newidiol. Cydnabyddir mai megis dechrau y mae ein siwrnai ac y byddwn yn dysgu pethau drwy gydol y broses – pethau a fydd, efallai, yn mynd â'r map trywydd i gyfeiriad gwahanol. Rhoddwyd dull 'dechrau o'r fan hon' ar waith er mwyn sicrhau y cymerir camau o fan cychwyn cyntaf y siwrnai.<br><br>I grynhoi, rydym mewn sefyllfa lle gallwn deilwra ein gwasanaeth yn ôl anghenion unigol, fel y cânt eu cyflwyno inni. Dyma'r pethau y mae angen inni eu datblygu: pennu rhagfarn ddiarwybod, awtomeiddio cysylltiadau torfol ar gyfer | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Parhaus drwy gydol<br>y pedair blynedd nesaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | anghenion penodol a normaleiddio'r arfer o drafod amrywiaeth yn y busnes. | | |
| c) Yn cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o fodlonrwydd tenantiaid gyda gwasanaethau | Gweithredu camau gwella i fynd i'r afael ag adborth gan gwsmeriaid drwy arolwg Beaufort.<br><br>Comisiynu Beaufort i gynnal arolwg bodlonrwydd dilynol.<br><br>Adolygu a gwella sut caiff data am fodlonrwydd cwsmeriaid ei drosglwyddo a'i ystyried gan y Tîm Arwain i fod yn sail i wneud penderfyniadau.<br><br>Ymgymryd ag arolwg STAR a defnyddio data i lywio gwasanaethau a phenderfyniadau, a bod yn sail iddynt. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid/Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf | Yn parhau gydol 2022/2023 |
| d) Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad landlordiaid ar gael i denantiaid | Byddwn yn gweithio gyda'n cwsmeriaid er mwyn deall pa wybodaeth yr hoffent ei chael – yn ychwanegol at yr wybodaeth a rennir yn barod (sef y Cynllun Corfforaethol, Datganiadau Ariannol, y Cynllun Ymgysylltu ac ati) – ac ym mha ffordd yr hoffent gael yr wybodaeth honno.<br><br>Rydym wedi cynllunio rhaglen newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth am berfformiad. Bydd y rhaglen hon yn dechrau ddiwedd Ch1 2023-24 a bydd yn tynnu sylw at ddata allweddol ar ffurf ffeithlun/fformat wedi'i animeiddio. Bydd y data hwn yn cael ei gyflwyno mewn modd hawdd ei ddarllen a bydd yn cael ei osod yn ei gyd-destun. Y bwriad yw galluogi pobl i ddeall y data a'r effaith a gaiff hynny arnynt hwy fel | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Gorffenaf 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cwsmeriaid. O'r herwydd, mae'r dyddiad targed ar gyfer ein gwelliant parhaus wedi cael ei newid o ddiwedd Rhagfyr 2023 i Orffennaf 2023.<br><br>Rydym wedi archwilio ein dulliau cyfathrebu, a thrwy ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod arolygon diweddar rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ein cwsmeriaid yn cael gwybod y diweddaraf trwy gyfrwng dulliau traddodiadol, er enghraifft cylchlythyrau i gwsmeriaid a gaiff eu hargraffu ddwywaith y flwyddyn a llythyrau penodol a anfonir trwy'r post pan fo angen; ochr yn ochr â datblygu ein sianeli cyfathrebu digidol er mwyn sicrhau y bydd gwybodaeth yn llifo'n rheolaidd ar gyfer y rhai a fydd yn cofrestru i dderbyn ein negeseuon testun a'n e-gylchlythyrau. Hefyd, byddwn yn defnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i barhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid, gan weithio ar strategaeth newydd er mwyn inni allu cyrraedd cynulleidfaoedd penodol (er enghraifft, defnyddio TikTok i gyrraedd rhanddeiliaid a chwsmeriaid iau). Rydym hefyd yn ceisio sefydlu grŵp 'gweithio gyda'n gilydd' er mwyn galluogi ac annog cwsmeriaid i adolygu'r amryfal ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwn a'r ystod o wybodaeth a gaiff ei rhyddhau gennym, yn ogystal â chyflwyno adborth yn eu cylch. Fel rhan o'n cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ein negeseuon cyfathrebu yn gwbl gynhwysol a hygyrch. | | |

| Cyf. | Safon Rheoleiddio | | |
|---|---|---|---|
| **SRh4** | **Tenantiaid yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i ddylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau** | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Yn creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfraniad gan denantiaid | Gweithredu a mewnosod yr ystyriaeth o adborth gan gwsmeriaid fel ymarfer safonol ar draws y busnes. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Yn parhau gydol 2022/23 a 2023/24 |
| b) Yn galluogi tenantiaid i ddeall dull gweithredu'r sefydliad mewn perthynas â chyfraniad tenantiaid, sut allant gymryd rhan a sut fydd y sefydliad yn gwrando ar adborth tenantiaid, ac yn gweithredu arno, ac yn dysgu gan gwynion. | Holi staff i adnabod pa feysydd y mae angen gwella cyfraniad cwsmeriaid ac adnabod unrhyw rwystrau rhag ymgysylltu, a chael gwared arnynt.<br><br>Byddwn yn mewnosod ymgysylltiad fel rhan o'n proses recriwtio ar gyfer y bwrdd.<br><br>Datblygu modiwl e-ddysgu yn canolbwyntio ar gyfraniad gan gwsmeriaid ar gyfer pob cydweithiwr newydd a chyfredol i helpu i fewnosod hyn fel ymarfer safonol ar draws y sefydliad.<br><br>Diweddaru ac adolygu'r olrheiniwr ymgysylltu gyda manylion am ganlyniadau ac effeithiau gwahanol gyfleoedd a dulliau ymgysylltu i ddeall yn well sut mae ein hagwedd newydd wedi effeithio ar y busnes.<br><br>Bydd y graffeg ymgysylltu o'r strategaeth yn cael ei chyhoeddi ar y wefan i ddangos sut all cwsmeriaid gymryd rhan. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Yn parhau gydol 2022/23 a 2023/24 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd y diweddariad arweinyddiaeth chwarterol yn cael ei uwchlwytho i'r wefan a bydd yn cynnwys y cynlluniau a'r digwyddiadau sydd ar y gweill ar gyfer y chwarter nesaf, fel bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd ar draws y busnes.<br><br>System gofnodi well ar gyfer cwynion a fydd yn caniatáu dadansoddiad gwell o'r cwynion.<br><br>Byddwn yn datblygu modiwl cwynion er mwyn i ni ddysgu gan lwyddiannau. | | |
| c) Yn rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan, yn gallu dangos bod tenantiaid yn fodlon gyda nhw ac yn gallu dangos y gwahaniaeth mae eu cyfraniad yn ei wneud | Byddwn yn ymgymryd ag arolwg bodlonrwydd o'n dulliau ymgysylltu i ddeall a ydynt yn cyflawni'r hyn mae cwsmeriaid ei eisiau a'i angen.<br><br>Byddwn yn gwella ac yn annog y gwaith o gaffael canlyniadau ac effeithiau, wedi'u cofnodi ar yr olrheiniwr drwy ein dull partner busnes. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Yn parhau gydol 2022/23 a 2023/24 |
| d) Yn gallu dangos bod safbwyntiau a disgwyliadau tenantiaid gwahanol yn sail i ddatblygu ac adolygu tai a gwasanaethau cysylltiedig, a'r ymateb i unrhyw achos o danberfformio | Cryfhau ein gallu i ddangos amrywiol safbwyntiau - ymdrinnir â hyn drwy gamau gweithredu sydd wedi'u nodi ym map trywydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai, Cymunedau a Chwsmeriaid | Amrywiol - yn unol â map trywydd 4 blynedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant |

| Cyf. | Safon Rheoleiddio | | |
|---|---|---|---|
| **SRh5** | **Rhenti a chostau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid heddiw ac yfory** | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Yn sicrhau y cydymffurfir â phob rheol a chanllaw statudol perthnasol (gan gynnwys y cytundeb rhent cyfredol) | Cyfarwyddwr Cyllid i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant y sector fel sy'n briodol i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod ar y blaen o ran rheolau a chanllawiau statudol ac unrhyw newidiadau sydd ar y gweill. | Cyfarwyddwr Cyllid | Diwedd mis Rhagfyr 2022 |
| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
| **SRh6** | **Mae gan y sefydliad agwedd strategol at werth am arian sy'n sail i'w holl gynlluniau a gweithgareddau** | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Yn pennu ei agwedd strategol at werth am arian, gan sicrhau bod yr agwedd yn cyd-fynd â'i ddiben cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol â honno | Diweddaru ein Strategaeth Gwerth am Arian i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'n diffiniad ar ôl cwblhau'r gwaith sy'n ymwneud â gwerth am arian a gefnogir gan Cwmpas.<br><br>Mewnosod y strategaeth gwerth am arian ar draws y busnes i sicrhau dull cyson a bod gwerth am arian yn cael ei ystyried fel rhan o wneud penderfyniadau strategol a gweithredol. | Cyfarwyddwr Cyllid | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| b) Yn gallu dangos i randdeiliaid, yn cynnwys tenantiaid, ei fod yn cyflawni gwerth am arian o ran cyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau | Fel yr uchod, bydd gwaith i adolygu a deall yn well beth mae Gwerth am Arian yn ei olygu yng nghyd-destun Cymoedd i'r Arfordir yn ein galluogi ni i rannu sut ydym yn cyflawni hyn gyda'n rhanddeiliaid. | Tîm Arwain | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |

| Cyf. | Safon Rheoleiddio | | |
|---|---|---|---|
| **SRh7** | **Cynllunio a rheolaeth ariannol yn gadarn ac effeithiol** | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Yn gosod cynlluniau ariannol sy'n ei alluogi i gyflawni ei strategaeth a chyflawni ei ddiben cymdeithasol, a bod adroddiadau priodol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd mewn cymhariaeth â'r cynlluniau hyn | Adolygu prosesau cau'r cyfnod i wella effeithiolrwydd adrodd.<br><br>Adolygu ffurf a chynnwys adroddiadau'r Bwrdd fel rhan o'r adolygiad Llywodraethu i sicrhau bod y wybodaeth yn glir, yn berthnasol ac yn amserol. | Cyfarwyddwr Cyllid/Cyfarwyddwr Llywodraethu, Strategaeth a Pherfformiad | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| b) Yn ariannol ddichonadwy yn y tymor byr, canolig a hir, ac yn cynnal cyllid a hylifedd digonol i gefnogi hyn | Er mwyn cyflawni ein llawn botensial fel sefydliad, ac i allu mynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol, mewn partneriaeth â'r cyngor lleol a Llywodraeth Cymru, bydd y Gymdeithas yn parhau i archwilio cyfleoedd i sicrhau rhagor o gyllid grant ac ystyried mecanweithiau cyllid newydd eraill i'n galluogi ni i fuddsoddi ymhellach yn ein cartrefi a'n cymunedau. | Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| c) Yn monitro ac yn adrodd ar bob cyfamod y mae wedi'i gytuno arno gyda'r cyllidwyr, ac yn cydymffurfio â nhw | Monitro cyfamodau yn barhaus i sicrhau nad ydynt yn rhwystr i fuddsoddi yn ein cartrefi.<br><br>Adolygu'r rheolau aur a gaiff eu sefydlu gan y Bwrdd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben. | Cyfarwyddwr Cyllid | Diwedd mis Rhagfyr 2022 |
| d) Pennu risgiau o ran cyflawni cynlluniau ariannol a mynd ati'n effeithiol i'w rheoli, yn cynnwys cynnal profion straen priodol, cynllunio senarios a defnyddio trothwyon mewnol | Prif fwriad cynlluniau gwariant yw darparu lefel gydymffurfio sylfaenol yn erbyn safonau Llywodraeth Cymru, gan barhau i fod yn gynaliadwy mewn amodau 'dan straen resymol'. | Cyfarwyddwr Cyllid | Mis Tachwedd 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Oherwydd tangyllido yn y gorffennol, ni chafwyd llawer o gyfle i fuddsoddi mewn tai sy'n cyrraedd ansawdd gwell na'r lefel gydymffurfio nac ychwaith i gynnal y lwfans 'diogelwch' hwn.<br><br>Wrth symud ymlaen, bydd y gallu i ddygymod â straen eithafol mewn ffactorau economaidd, ynghyd â'r gallu i fodloni gofynion rheoleiddio mwyfwy dyrys (e.e. mae'r agenda datgarboneiddio yn esgor ar risg i gynaliadwyedd ariannol), yn gryn her.<br><br>Bydd profion straen ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn cynnwys ystyried heriau newydd a datblygol yn yr amgylchedd gweithredu ac ystyried opsiynau i liniaru risgiau'n ymwneud â hyfywedd ariannol. Bydd adborth ar gamau lliniaru posibl yn treiddio'n ddyfnach i'r sefydliad fel y gellir pennu 'sbardunau' penodol sy'n ysgogi gweithredu ynghyd â 'chamau cyntaf' sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifio mesurau lliniaru ac sy'n amcangyfrif gwerth yr effaith.<br><br>Bydd ein hadroddiadau ar gyfer y Bwrdd dros y flwyddyn nesaf yn cynnwys gwell tablau a graffiau mewn perthynas â naratif y senarios, gan ymwneud yn benodol ag arian am ddim, cyfamodau a hyblygrwydd ar gyfer blynyddoedd 1-5, 10 a 30 – er, bydd archwaeth y Bwrdd am wybodaeth o'r fath yn cael ei brofi er mwyn sicrhau y bydd yn berthnasol ac yn ddigonol. | | |
| e) Yn meddu ar strategaeth rheoli trysorlys effeithiol a phrosesau cysylltiedig | Adolygu strategaeth rheoli'r trysorlys i sicrhau ei bod yn cynnwys ystyriaeth o ofynion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, h.y. trefnu rhyddhad cyfamodau gyda benthycwyr; ceisio cymhelliannau yn seiliedig ar fenthycwyr ar | Cyfarwyddwr Cyllid | Diwedd mis Mawrth 2023 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfer ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac archwilio ffyrdd newydd o gyllid. | | |

| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** |
|---|---|
| **SRh8** | **Asedau a rhwymedigaethau wedi'u rheoli'n dda** |

| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
|---|---|---|---|
| a) Yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl gywir a chyfredol o'i asedau a'i rwymedigaethau | Diweddau'r broses gofnodi ac adolygu i gyflawni defnydd mwy rhagweithiol o'r Gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau | Cyfarwyddwr Cyllid/ Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| b) Yn gwneud y defnydd gorau o'r asedau i gyflawni ei ddiben cymdeithasol ac amcanion y sefydliad | Archwilio opsiynau a chyfleoedd i sicrhau rhagor o gyllid i fuddsoddi ymhellach yn ein cartrefi a'r effaith y gallwn ei chael ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf/Cyfarwyddwr Cyllid | Diwedd mis Rhagfyr 2023 |
| c) Yn defnyddio gwybodaeth gywir ynghylch asedau a rhwymedigaethau i fod yn sail i benderfyniadau strategol ac ariannol | Adolygiad o fetrigau perfformiad i ystyried manwl gywirdeb a gwerth y wybodaeth a gesglir ac yr adroddir arni mewn perthynas â'n hasedau a'n rhwymedigaethau. | Cyfarwyddwr Corfforaethol TG, Digidol a Data | Diwedd mis Rhagfyr 2022 |

| **Cyf.** | **Safon Rheoleiddio** | | |
|---|---|---|---|
| **SRh9** | Y sefydliad yn darparu llety o ansawdd | | |
| **Gofynion** | **Camau gwella** | **Yn gyfrifol** | **Dyddiad cau** |
| a) Yn sicrhau bod cartrefi sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yn bodloni'r holl safonau, rheolau a chanllawiau statudol perthnasol sy'n ymwneud ag ansawdd llety, gan gynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru | Gweithio tuag at gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru 2. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu a Thwf | Yn parhau i fynd rhagddo drwy gydol y cyfnod gan weithio tuag at y dyddiad cau sydd i'w gadarnhau ar ôl ymgynghori. |

Cymeradwywyd y cynllun gwella hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 22 Awst 2022, Rhif y Ddogfen B44.22/23.

Llofnodwyd:   Dyddiad: 22 Awst 2022

[Cadeirydd] [Prif Weithredwr]